Trydan Gwyrdd Cymru

**Gwahoddiad i gwrdd â thîm Trydan**

**Ynni i ffynnu. Power to prosper.**



# Gwefr – Fferm Wynt Glyn Cothi rhifyn 1

**Pleser yw eich gwahodd i'n digwyddiadau ymgynghori anffurfiol cyntaf i drafod ein cynlluniau cynnar ar gyfer Fferm Wynt arfaethedig Glyn Cothi. Mae'r dyddiadau a'r lleoliadau wedi'u rhestru isod.**

Yn ein digwyddiadau, bydd gennym lawer o wybodaeth i'w rhannu, gallwch:

- Gwrdd â thîm prosiect Glyn Cothi
- Gweld model digidol o sut olwg allai fod ar y fferm wynt
- Gofyn cwestiynau a rhoi adborth

Rydym yn dal i fod yng nghyfnod cynnar iawn y prosiect hwn, ond mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud, o arolygon adar ac ecolegol, mapio a chasglu data, penodi ymgynghorwyr, a mynd allan i siarad â chynrychiolwyr etholedig lleol.

Rydym yn dibynnu arnoch chi i gymryd rhan, helpu i lunio a chyflawni'r prosiect gorau posibl ar gyfer eich ardal!

Mae'n hanfodol bwysig i ni bod eich lleisiau chi, fel aelodau o'r gymuned leol, yn cael eu clywed, a'ch bod yn helpu i lunio'r cynllun.



| Dydd Iau 6 Tachwedd 2025 | Dydd Gwener 7 Tachwedd 2025 | Dydd Sadwrn 8 Tachwedd 2025 |
|---|---|---|
| 3:30yp-7:00yp | 3:00yp-7:00yp | 10:00yb-2:00yp |
| Ysgol Gynradd Llanybydder<br>Llanybydder SA40 9RP | Neuadd Eglwys Abergorlech<br>Abergorlech SA32 7SN | Neuadd Eglwys Brechfa<br>Caerfyrddin SA32 7RA |

Os na allwch fynychu'r digwyddiadau ymgynghori, gallwch weld y deunydd ymgynghori a llenwi ffurflen adborth ar wefan Glyn Cothi. Rhaid i bob adborth ein cyrraedd erbyn **5pm ddydd Mercher 26 Tachwedd 2025.**

Mae **Trydan Gwyrdd Cymru** yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, sydd â'r nod o ddatgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a darparu buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

www.trydanglyncothi.cymru | croeso@trydanglyncothi.wales | 01267 610970

Argraffwyd gan Pro Print, Caerfyrddin

# Trosolwg o'r prosiect

## Rydym yn ymchwilio i'r potensial ar gyfer ffermydd gwynt newydd â storfa ynni batri yn bennaf o fewn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Coedwig Brechfa.

Nod Trydan yw cynyddu gwerth y tir hwn a'n hadnoddau naturiol i'r eithaf i bobl Cymru.

Byddai'r prosiect yn gwneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â diogeledd ynni a newid hinsawdd drwy ddarparu:

- Hyd at 27 o dyrbinau gwynt modern, hynod effeithlon.
- Tua 162 MW o drydan glân.
- Digon i bweru 144,000 o gartrefi cyffredin yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu lleol drwy bolion pren.

Mae Coedwig Brechfa yn cael ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac yn gorchuddio tua 6,000 hectar. Fe'i defnyddir yn bennaf ar gyfer cynhyrchu coed, ac i ddarparu hamdden ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth. Mae Coedwig Brechfa eisoes yn gartref i brosiectau cynhyrchu gwynt.

Ni fydd ein cynigion yn atal y gweithgareddau o fewn bloc y goedwig rhag parhau, fel y maent yn ei wneud heddiw. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu sicrhau ein bod yn gwneud mwy i ddiogelu bywoliaethau, creu a chefnogi swyddi newydd, gofalu am natur, a chwarae ein rhan yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Yn ogystal â chyfrannu at nod sero net Cymru ar gyfer 2050, mae gan Fferm Wynt Glyn Cothi y potensial i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol. Bydd y mathau o fuddion amgylcheddol y byddwn yn chwilio amdanynt yn amrywio o gyfleoedd i wella cynefinoedd a gwella cyfleoedd i rywogaethau allweddol.



Cydnabyddiaeth: Ffordd Fawr Morgannwg

## Ecoleg ac Adareg

### Diogelu'r amgylchedd a gwella natur



Mae diogelu'r amgylchedd a gwella natur yn flaenoriaeth i Trydan a bydd cyfleoedd i wella'r amgylchedd yn ein safle yng Nglyn Cothi yng Nghoedwig Brechfa.

Mae adaregwyr ymhlith yr arbenigwyr cyntaf ar y safle gan fod angen cynnal arolygon adar dros ddwy flynedd fel bod bywyd adar yn y safle ac o'i amgylch yn cael ei arsylwi a'i gofnodi dros sawl tymor, gan gynnwys y tymor bridio hollbwysig.

Pleser oedd darganfod bod amrywiaeth dda iawn o rywogaethau adar yng Nghoedwig Brechfa, ac mae llawer ohonynt yn rhywogaethau o bwys mawr at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, ac rydym yn llawn cyffro ynghylch chwarae ein rhan i sicrhau bod eu poblogaethau'n ffynnu yng Nglyn Cothi.

Mae ein timau ecoleg hefyd wedi bod yn brysur yn asesu cynefinoedd ar gyfer ystod eang o rywogaethau gan gynnwys Dyfrgwn, Llygod Dŵr, Pathewod ac ystlumod.

**Mae gwella bioamrywiaeth yn ofyniad ar gyfer datblygiadau yng Nghymru – a elwir yn Fudd Net ar gyfer Bioamrywiaeth (BNB), sy'n golygu bod yn rhaid i ni sicrhau bod yr ecosystemau mewn cyflwr gwell ar ôl i ni gwblhau ein datblygiad, nag o'r blaen.**

Os ydych chi'n rhan o grŵp natur lleol neu os oes gennych syniadau yr hoffech eu cyfrannu at ein gwaith ecoleg ac adareg, cysylltwch â ni.

# Trydan – uchelgeisiau mawr i Gymru

## Lansiwyd Trydan Gwyrdd Cymru yn 2024 fel datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo cyhoeddus.


Rydym yn gweithio tuag at darged o ddatblygu 1 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd erbyn 2040, a dechreuodd ein huchelgeisiau'n dda pan lansiwyd ein tri phrosiect cyntaf yn gynharach eleni, gan gynnwys Glyn Cothi.

**Fferm Wynt Clocaenog Dau**
Conwy, Sir Ddinbych
www.trydanclocaenogdau.cymru

**Fferm Wynt Glyn Cothi**
Sir Gaerfyrddin
www.trydanglyncothi.cymru

**Fferm Wynt Carreg Wen**
Rhondda Cynon Taf
www.trydancarregwen.cymru





**Gall hyd at 400 MW o gapasiti gosodedig ddarparu trydan sy'n cyfateb i ddefnydd trydan blynyddol cyfartalog hyd at 350,000 o gartrefi Cymru [1], h.y. chwarter y cartrefi yng Nghymru.[2]**

[1] RenewableUK. UK Wind Energy Database. https://www.renewableuk.com/energypulse/ukwed/
[2] Llywodraeth Cymru. Tai yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). https://www.llyw.cymru/tai-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html


### Mae 2025 wedi bod yn gyfnod prysur i dîm Glyn Cothi. Rydym ni wedi:

- Parhau â'n harolygon adareg a dechrau ein harolygon ecoleg. Gallwch ddarllen mwy am y gwaith hwn yn yr astudiaeth achos ar ein gwefan.
- Lansio ein prosiect Glyn Cothi yn swyddogol ym mis Gorffennaf.
- Siarad ag aelodau etholedig a chyflwyno ein cynlluniau cynnar i gynghorau cymuned lleol.
- Paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad anffurfiol.
- Fel llawer o bobl ifanc Sir Gaerfyrddin, aethom i Eisteddfod yr Urdd ym Margam ym mis Mai. Roeddem yn falch iawn o ddod yn bartner swyddogol a dangos ein cefnogaeth i bobl ifanc Cymru.

### Buddion y prosiect

Mae lleoli ffermydd gwynt ar gopaon ein bryniau gwyntog yn bennaf o fewn coedwigaeth fasnachol yn **fantais i bawb** oherwydd ei fod yn ychwanegu rhywbeth sy'n cynnig buddion lluosog ac nad yw'n tynnu dim i ffwrdd:

- Cynhyrchu ynni glân, cost-effeithiol, sy'n lleihau ein dibyniaeth ar fewnforion, yn ein hamddiffyn rhag codiadau prisiau rhyngwladol, ac yn cyfyngu ar ein heffaith ar y blaned.
- Gall coedwigaeth fasnachol – tyfu'r pren sydd ei angen arnom, barhau fel o'r blaen.
- Dod â buddsoddiad i ardaloedd gwledig, helpu i greu swyddi, a chefnogi cadwyn gyflenwi ac economi leol sy'n ffynnu.
- Gwella mynediad at fannau awyr agored ar gyfer hamdden fel y gall pobl barhau i fwynhau cerdded, beicio, marchogaeth a chael picnic yn y goedwig.
- Darparu amodau gwell ar gyfer natur trwy gynlluniau rheoli cynefinoedd.



Cynhyrchu ynni glân, cost-effeithiol



Gall coedwigaeth fasnachol – tyfu'r pren sydd ei angen arnom, barhau fel o'r blaen




Dod â buddsoddiad i ardaloedd gwledig



Gwella mynediad at fannau awyr agored



Darparu amodau gwell ar gyfer






Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**